Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

## Deintyddfa a Chlinig Mewnosod Freeman and Rosser, Caerfyrddin
## Dyddiad yr arolygiad: 25 Gorffennaf 2023
## Dyddiad cyhoeddi: 25 Hydref 2023



Mae'r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad

ISBN Digidol 978-1-83577-006-1
© Hawlfraint y Goron 2023

Gwelsom fod y practis yn olau, yn lân ac mewn cyflwr da. Gwelsom fod y staff yn trin y cleifion mewn modd parchus, cyfeillgar a phroffesiynol.

Roedd trefniadau da ar waith i drin y cleifion ag urddas a pharch, ac i sicrhau bod y practis yn hygyrch i bobl ag anawsterau symudedd.

Roedd y deintyddfeydd yn lân ac yn cynnwys cyfarpar digonol. Gwelsom fod systemau diogel ar waith ar gyfer glanhau a sterileiddio'r cyfarpar.

Gwelsom fod gan reolwr y practis systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod y safle yn ddiogel ac yn addas at y diben a bod y staff yn cael hyfforddiant. Roedd ymrwymiad clir i ddysgu o adborth gan gleifion o ran sut i wella'r gwasanaeth.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.



# Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ddeintyddfa a Chlinig Mewnosod Freeman and Rosser, Caerfyrddin ar 25 Gorffennaf 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Mae'r fersiwn gryno hon o'r adroddiad wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol ar gael ar ein gwefan.

# Ansawdd Profiad y Claf

## Crynodeb Cyffredinol

Gwelsom fod Deintyddfa a Chlinig Mewnosod Freeman and Rosser yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Gwelsom y staff yn trin cleifion mewn ffordd gwrtais, gyfeillgar a phroffesiynol wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i helpu pobl ag anawsterau symudedd i gael mynediad i'r practis ac i ddefnyddio'r gwasanaethau. Gwelsom risiau â chanllawiau a stribedi diogelwch, ramp ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn, dolen sain yn y dderbynfa a thoiled hygyrch. Roedd pob ardal glinigol ar y llawr gwaelod.

Roedd pob un o'r unigolion a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd amgylchedd y practis yn olau, yn lân ac mewn cyflwr da
- Roedd trefniadau da ar waith ar gyfer cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion.
- Roedd y deintyddfeydd yn lân ac yn cynnwys cyfarpar digonol.

**Dywedodd y cleifion wrthym:**

"Bob amser yn ofalgar, yn broffesiynol ac yn effeithiol, yn effeithlon iawn"

"Mae cwrteisi a chyfeillgarwch staff y dderbynfa yn ardderchog - Bob amser yn fy nghroesawu â gwên"

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Crynodeb Cyffredinol

Roedd y practis yn lân ac mewn cyflwr da, ac roedd y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel.

Gwelsom fod systemau effeithiol ar waith i sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff, gan gynnwys asesiadau risg a hyfforddiant staff.

Roedd y gweithdrefnau ar gyfer prosesu, dihalogi a sterileiddio offer deintyddol yn briodol ac wedi'u deall yn dda. Gwelsom fod gwiriadau yn cael eu cynnal a'u cofnodi o'r cyfarpar, a bod archwiliadau clinigol o drefniadau rheoli heintiau yn cael eu cynnal.

Roedd yr holl gyfarpar pelydr-X mewn cyflwr da ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant priodol ar sut i'w defnyddio.

Gwelsom fod gweithdrefnau diogelu clir ar gael i bob aelod o'r staff.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu cwblhau'n gyson

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd yr ardaloedd clinigol yn lân, yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn addas at y diben
- Roedd archwiliadau clinigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn adolygu a gwella'r gwasanaeth
- Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Crynodeb Cyffredinol

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd a gwelsom ei fod yn ymrwymedig i'r rôl. Gwelsom fod rhiant grŵp y practis hefyd yn rhoi cymorth da.

Roedd systemau electronig effeithiol yn cael eu defnyddio er mwyn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar gael, er mwyn sicrhau bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ac er mwyn rheoli rhaglen o weithgareddau i wella ansawdd y gwasanaeth. Gwelsom hefyd ymrwymiad i ddysgu o adborth a sylwadau gan gleifion.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Diweddaru'r weithdrefn gwyno i gynnwys manylion cyswllt ar gyfer y practis
- Ystyried sut i gasglu adborth gan gleifion nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau yn gyfredol, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac ar gael i bob aelod o'r staff
- Roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn cael eu rheoli'n dda ac yn gyfredol
- Roedd y gwasanaeth yn gwneud defnydd effeithiol o gymorth gan grŵp corfforaethol y practis.

# Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, cânt eu nodi yn atodiadau'r adroddiad arolygu llawn.

Pan fyddwn yn nodi pryderon sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion, gofynnwn i'r gwasanaeth gymryd camau brys. Caiff y pryderon hyn eu hamlinellu yn yr atodiadau ac maent yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle byddwn yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn ac i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a godwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, bydd AGIC yn gofyn i'r gwasanaeth gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i wasanaethau ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r camau a gymerwyd a/neu'r cynnydd a wnaed.

